Dogfen Ymgynghori

Ymgynghori ar Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Ceiriog

Ysgol Cynddelw **Ffordd Newydd** **Glyn Ceiriog** **Llangollen** **LL20 7HH**	**Ysgol Gynradd Pontfadog** **Pontfadog** **Llangollen** **LL20 7AH**	**Llanarmon** **Dyffryn** **Ceiriog** **Ger Llangollen** **LL20 7LB**

Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad/Esboniad o'r ymarfer ymgynghori
    - Yr Ymgynghoriad
    - Rhestr o'r rhai a ymgynghorwyd â nhw
    - Datblygu cynigion ar drefniadaeth yr ysgol
    - Cefndir y cynnig
2. Eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon
3. Mae eich barn yn bwysig / Sut allwch chi gael mwy o wybodaeth a rhoi eich barn?
4. Y Cynnig
5. Pam ein bod yn cynnig y newidiadau?
6. Mae Safonau Addysgol a chanlyniadau yn dda ar draws ardal Wrecsam
7. Cyfleusterau sydd wedi'u cynnwys mewn Ysgol
8. Cyflenwad a galw am leoedd ysgol
9. Trefniadau Ffederasiwn Cyfredol gan yr Ysgolion
10. Opsiynau i'w hymgynghori
11. Trefniadau dros dro
12. Effaith y cynnig ar ysgolion cyfagos
13. Beth fyddai'r effaith ar ddarpariaeth feithrin?
14. Ansawdd a safonau
    - Estyn
    - Llywodraeth Cymru
    - Gwerthuso effaith y cynnig ar ansawdd a safon yr addysg
15. Beth fyddai'r effaith ar Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY)?
16. Risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig
17. Trefniadau derbyn
18. Cyllid: Costau a Chyllido
19. Beth fydd effaith y cynnig ar staff
20. Trefniadau cludiant
21. Effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg
22. Effaith y cynnig ar ddarpariaeth yr Eglwys yng Nghymru
23. Cydraddoldeb

24. Cynaliadwyedd
25. Effaith ar y gymuned
26. Y camau nesaf - Sut i leisio'ch barn
27. Dyddiadau allweddol
28. Beth fydd yn digwydd nesaf?
29. Cyfnod ymgynghori
30. Cyhoeddi hysbysiadau statudol
31. Penderfynu ar y cynigion
32. Hysbysiad o'r Penderfyniad
33. Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

1. Cyflwyniad - Esboniad o'r ymarfer ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i staff, rhieni, budd-ddeiliaid a'r gymuned ehangach ddysgu am y cynigion trefniadaeth ysgolion a gyflwynwyd yn eich ardal chi.
Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn dymuno ceisio barn partïon â diddordeb.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon â gwybodaeth y bydd angen i ymgyngoreion ei hystyried i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori. Mae'r broses yn dilyn y canllawiau rheoleiddio a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2013.
Mae'r cyfnod ymgynghori ffurfiol yn dechrau ar **9 Ionawr 2018** ac yn dod i ben ar **21 Chwefror 2018.**

Yr Ymgynghoriad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yma ac yn y sesiynau ymgynghori yn ddigonol i alluogi pobl lunio barn ar yr opsiynau i'w hystyried. Bydd yr wybodaeth a gesglir drwy'r ymgynghoriad hwn yn cael ei fwydo'n ôl i'r Bwrdd Gweithredol a fydd yn penderfynu parhau i'r cam nesaf o'r ymgynghoriad, sef cyhoeddi cynnig Statudol i wneud newid sylweddol neu i gau ysgol.

Ymddiheurwn oherwydd y nifer uchel o ymatebion sydd yn dod i law wrth ymgynghori ar opsiynau, na fyddwn yn gallu cydnabod ymatebion ysgrifenedig na chyfathrebu â phartion â diddordeb yn ystod neu ar ôl y cyfnod ymgynghori.

Fodd bynnag bydd eich sylwadau yn cael eu hystyried a'u hymateb drwy gyhoeddi adroddiad ôl ymgynghori.

Sylwch y bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar gael i Aelodau Etholedig ar gyfer pwrpas gwneud penderfyniadau.

Digwyddiad	Dyddiad
Ymgynghoriad – yn ystod yr amser hwn gallwch wneud eich safbwyntiau yn hysbys drwy • Fynychu sesiynau ymgynghori agored (bydd nodiadau yn cael eu cymryd); • Ysgrifennu ar neu anfon e-bost i'r cyngor; neu • Llenwi ffurflen ymateb sydd ar ddiwedd y llyfryn hwn	**9 Ionawr 2018 tan 21 Chwefror 2018**

Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn mynd i Fwrdd Gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Bydd y bwrdd gweithredol yn gwneud penderfyniad a yw'n dymuno symud ymlaen i'r cam nesaf o'r ymgynghoriad.	**10 Ebrill 2018**
Hysbysiadau statudol yn cael eu cyhoeddi. Mae'r rhain yn hysbysiadau cyhoeddus sydd yn ymddangos yn mynedfeydd yr ysgol (ysgolion). Gallwch wneud eich safbwyntiau yn hysbys ar yr adeg hon drwy ysgrifennu neu anfon e-bost at y cyngor. Bydd cyfeiriad a dyddiad y mae'n rhaid i chi anfon sylwadau ysgrifenedig yn cael eu rhoi ar yr hysbysiad cyhoeddus.	**16 Ebrill 2018 tan 16 Mai 2018**
Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gwneud y penderfyniad ar y cynnig	**10 Gorffennaf 2018**
Cynnig i'w weithredu erbyn	**Medi 2019**

Sylwch y gall yr amserlen newid, bydd unrhyw newidiadau dilynol yn cael eu cyhoeddi.

Bydd y cyngor yn gallu dweud wrthych os yw hyn yn digwydd a rhoi gwybod i chi o'r dyddiadau newydd yr ydym yn gweithio tuag ato.

Rhestr o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw

- Awdurdod cynnal arfaethedig Ysgol Gynradd Cynddelw, Cyngor Bwrdeistref Cyngor Wrecsam (Bwrdd Gweithredol).
- Awdurdodau lleol eraill, Cyngor Sir Powys, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Ddinbych, Gorllewin Swydd Gaer, Swydd Amwythig.
- Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Cynddelw; Ysgol Gynradd Pontfadog ac Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog (Ffederasiwn Dyffryn Ceiriog).
- Esgobaeth Wrecsam
- Rhieni (a darpar-rieni, lle bo modd), gofalwyr a gwarcheidwaid.
- Gweinidogion Cymru.
- Aelodau Cynulliad: AC Llyr Gruffydd, AC Lesley Griffiths, AC Mark Isherwood, AC Ken Skates., AC Nathan Gill, AC Michelle Brown
- Aelodau Seneddol: AS Susan Elan Jones, AS Ian Lucas.
- Estyn.
- Undebau llafur addysgu a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill.
- GwE.
- Uned Cludiant Integredig Cyngor Wrecsam (ITU).
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

- Cyngor Cymuned Llansantfraid Glyn Ceiriog a Chyngor Cymuned Glyn Traian (Pontfadog)
- Darparwyr meithrin annibynnol yn ardal Ceiriog gan gynnwys Mudiad Meithrin
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a Phartneriaethau Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

Datblygu cynigion ar drefniadaeth yr ysgol

Wrth ddatblygu cynigion ar drefniadaeth yr ysgol, dylid rhoi sylw i bolisïau ac egwyddorion cenedlaethol trosfwaol, gan gynnwys:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
- Iaith Fyw: Iaith Byw - Strategaeth Iaith Gymraeg 2012-2017;
- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg;
- Cymru'n Un: Un Blaned, cynllun datblygu cynaliadwy newydd Cymru, Mai 2009, neu unrhyw strategaeth olynol;
- Strategaeth Tlodi Plant Cymru (cyhoeddwyd Chwefror 2011, dogfen wybodaeth rhif 95/2011), neu unrhyw strategaeth olynol;
- Ffydd mewn Addysg.

Yn ogystal, wrth ddatblygu cynigion trefniadaeth yr ysgol, dylid rhoi sylw i gynlluniau lleol, gan gynnwys;

- Cynlluniau lleol ar gyfer datblygiad economaidd neu dai;
- Cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg;
- Cynlluniau plant a phobl ifanc;
- Canllawiau ysgolion yr 21ain Ganrif.

Dylid rhoi sylw hefyd i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion fel:

- Canllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Ebrill 2009);
- Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru.

Dyma'r ffactorau y dylai cyrff perthnasol eu hystyried wrth baratoi, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion:

- Ansawdd a safonau mewn addysg - deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth;
- Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion;
- Adnoddau ar gyfer addysg a goblygiadau ariannol eraill.

Ffactorau eraill cyffredinol megis effaith y cynnig ar blant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd, ac unrhyw faterion cydraddoldeb (gan gynnwys y rhai a nodwyd drwy asesiadau o effaith ar gydraddoldeb).

Uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer Addysg yn Wrecsam

Ein nod yw y bydd plant a phobl ifanc yn Wrecsam yn datblygu sgiliau bywyd hanfodol, awydd cryf am ddysgu gydol oes ac yn cael eu paratoi'n dda iawn ar gyfer y byd gwaith. Bydd yr holl blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i symud ymlaen drwy wahanol gamau o'u haddysg. Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i gael rhaglen ddysgu a fydd yn bersonol iddyn nhw, i wneud y mwyaf o'u galluoedd. Bydd plant a phobl ifanc yn dysgu mewn ystod gyffrous ac arloesol o arddulliau a lleoliadau. Bydd y rhain yn cynnwys profiadau dysgu galwedigaethol, menter, gwirfoddol, ysbrydol, diwylliannol a chwaraeon. Bydd amcanion trefniadaeth ysgolion yn darparu cyfleoedd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg, a darpariaeth ffydd hefyd.
Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau i godi safonau, gyda thasgau allweddol yn cynnwys sicrhau:

- disgwyliadau uchel a ffocws clir ar wella addysgu, dysgu a chyrhaeddiad ym mhob cymuned ysgol; ac
- bod yr holl adnoddau sydd ar gael i ysgolion yn cael eu canolbwyntio ar wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc.

2. Eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

Saesneg fel Iaith Ychwanegol

Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb - mae Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn broses sydd wedi'i bwriadu i sicrhau nad yw polisi, prosiect neu gynllun yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw bobl dan anfantais neu bobl diamddiffyn.

Datganiad (AAA) – mae gan blentyn ddatganiad o Anghenion Addysg Arbennig (AAA) os oes ganddynt anawsterau dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth addysg arbennig ar eu cyfer. Mae anhawster dysgu'n golygu bod y plentyn yn profi llawer mwy o anhawster wrth ddysgu na'r rhan fwyaf o blant yr un oed neu fod gan y plentyn anabledd sydd angen cyfleusterau addysg sy'n wahanol i'r rhai mae'r ysgol fel arfer yn eu darparu ar gyfer plant.

Hysbysiad Statudol – Hysbysiad statudol yw cyhoeddiad ffurfiol ar gyfer cynnig terfynol, os yw wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Gweithredol y Cyngor, ac ni fydd yn cael ei ystyried nes maent wedi derbyn adroddiad ar holl ymatebion y broses ymgynghori. Mae hwn yn ofynnol yn gyfreithiol fel mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 yn ei nodi.

Nifer ar y Gofrestr – nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol, heb gynnwys disgyblion oed meithrin.

CYBLD – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Ym mis Ionawr bob blwyddyn, mae gwybodaeth wedi'i gwirio'n cael ei chasglu gan ysgolion i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion sy'n cofrestru ym mhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd a data ar yr iaith Gymraeg, hawl Pryd Ysgol am Ddim, Anghenion Addysg Arbennig ac iaith gyntaf.

Mae eich barn chi'n bwysig

3. Sut allwch chi gael mwy o wybodaeth a rhoi eich barn?

Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch chi gyfleu eich barn i ni. Mae ffurflen ymateb ynghlwm wrth y ddogfen hon. Gallwch lenwi'r ffurflen a'i dychwelyd atom yn y cyfeiriad a nodwyd.

Gallwch gysylltu â ni drwy e-bost. Y cyfeiriad e-bost ar gyfer yr ohebiaeth yw:

Ceiriogvalleyconsultation@wrexham.gov.uk

Mae'r ffurflen ymateb ar gael yn:

www.wrexham.gov.uk/Ymgynghoriaddyffrynceiriog

Gallwch hefyd alw i'n gweld yn y sesiynau galw heibio a gynhelir yn Ysgol Gynradd Cynddelw, Ysgol Gynradd Pontfadog ac Ysgol Gynradd Llanarmon Dyffryn Ceiriog. Yn y sesiynau hyn byddwch yn gallu siarad â Swyddog o'r Cyngor a fydd ar gael i ateb eich cwestiynau. Bydd dyddiadau'r sesiynau hyn yn cael eu dosbarth ar ddyddiad diweddarach.

Ni fydd y sylwadau'n cael eu trin fel gwrthwynebiadau ar y cam hwn.

4. Y Cynigion

I archwilio'r opsiynau sydd ar gael i'r Ffederasiwn i sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol agos, darparu Gwasanaethau Addysg mwyaf effeithiol ac effeithlon i ddisgyblion yn Nyffryn Ceiriog.

Rydym yn ymgynghori ar y canlynol:

1. Y Sefyllfa Bresennol – y dair ysgol yn aros fel y maent ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd mae 3 ysgol o fewn y Ffederasiwn, 1 cyfrwng Cymraeg – Llanarmon, 1 cyfrwng Saesneg – Pontfadog ac 1 dwy ffrwd – Cynddelw. Mae galw cynyddol am gyfrwng Cymraeg yn y dyffryn ac mae niferoedd cyfrwng Saesneg yn gostwng o ganlyniad yn Pontfadog ac o fewn ffrwd cyfrwng Saesneg Cynddelw, mae cynaliadwyedd wedi dod yn broblem sylweddol o fewn y ffederasiwn ac mae angen ymchwilio i fodelau darpariaeth eraill.

2. Newid dynodiad iaith Ysgol Cynddelw i gyfrwng Cymraeg gydag unrhyw ddisgyblion newydd Cyfrwng Saesneg yn cael eu dyrannu i safle Ysgol Pontfadog.

Wrth ystyried y problemau cynaliadwyedd cohort cyfrwng Saesneg bach o fewn y lleoliad dwy ffrwd, byddai symud i gyfrwng Cymraeg yn unig yn Ysgol Cynddelw gyda'r disgyblion cyfrwng Saesneg yn mynd i Ysgol Pontfadog yn rhoi profiad gwell i ddisgyblion gyda grŵp cyfoedion mwy ac yn arwain at system addysg fwy effeithiol ac effeithlon o fewn Ffederasiwn y Dyffryn. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i ehangu'r nifer o lefydd cyfrwng Cymraeg o fewn Wrecsam.

3. Cadw statws ffrwd ddeuol yn Ysgol Cynddelw, cau Ysgol Pontfadog a symud disgyblion i safle ffrwd ddeuol Ysgol Cynddelw.

Wrth ystyried y problemau cynaliadwyedd cohort cyfrwng Saesneg bach o fewn y lleoliad dwy ffrwd, byddai symud i gyfrwng Cymraeg yn unig yn Ysgol Pontfadog gyda'r disgyblion hynny yn symud i ysgol dwy ffrwd mwy yn arwain at system addysg fwy effeithiol ac effeithlon o fewn Ffederasiwn y Dyffryn. Byddai angen buddsoddiad i gynyddu'r ddarpariaeth yn Ysgol Cynddelw i gynnwys grwpiau mwy o ddisgyblion.

5. **<u>Pam ein bod yn cynnig y newidiadau?</u>**

1. I sicrhau mwy o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd i ddarparu'r addysg orau a gwerth gorau am arian.

2. Cefnogi gweledigaeth a strategaeth Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

3. Cefnogi nodau ac amcanion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a Strategaeth Iaith Gymraeg Wrecsam (2016).

4. Mae'r Cyngor yn ceisio cynnal y ddarpariaeth o ansawdd uchel bresennol o fewn Ffederasiwn Dyffryn Ceiriog, bu galw cynyddol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Cynddelw ac rydym yn profi niferoedd isel iawn sy'n dymuno cael mynediad i addysg cyfrwng Saesneg ar y safle hwnnw.

5. Os cynhelir y drefn bresennol, mae perygl y bydd y niferoedd isel o ddisgyblion sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Saesneg o un flwyddyn i'r llall yn cael effaith andwyol ar eu profiad cymdeithasol ac addysgol, gan na fyddai adnoddau'n cael eu gweithredu a'u defnyddio'n effeithlon o fewn yr addysgu a'r dysgu.

6. **<u>Mae Safonau Addysgol a chanlyniadau yn dda ar draws ardal Wrecsam</u>**. Mae'r siartiau isod yn dangos y canlyniadau ar gyfartaledd ar draws ysgolion Wrecsam a Dyffryn Ceiriog ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 fel ei gilydd.


Canran disgyblion sy'n cyflawni FPOI ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen
(2015 - 2017)
100.0%
80.0%
60.0%
40.0%
20.0%
0.0%
85.0%
75.0%
50.0%
85.5%
86.8%
83.3%
100.0%
0.0%
86.6%
87.0%
82.4%
100.0%
100.0%
88.4%
87.3%
2014/15
2015/16
2016/17
Cynddelw
Llanarmon
Pontfadog
Wrexham
Wales


Canran y disgyblion sy'n cyflawni CSI ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2
(2015 - 2017)
100.0%
80.0%
60.0%
40.0%
20.0%
0.0%
100.0%
0.0%
66.7%
100.0%
71.4%
100.0%
2014/15
2015/16
2016/17
Cynddelw
Llanarmon
Pontfadog
Wrexham
Wales


Canran disgyblion sy'n cyflawni FPOI ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen
(2015 - 2017)
100.0%
90.0%
80.0%
70.0%
60.0%
50.0%
80.8%
85.5%
80.0%
86.6%
85.7%
88.4%
2014/15
2015/16
2016/17
Ceiriog Vally Federation
Wrexham
Wales


Canran y disgyblion sy'n cyflawni CSI ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2
(2015 - 2017)
100.0%
90.0%
80.0%
70.0%
60.0%
50.0%
90.9%
87.7%
87.7%
71.4%
87.7%
88.6%
81.8%
90.3%
89.5%
2014/15
2015/16
2016/17
Ceiriog Vally Federation
Wrexham
Wales

7. **<u>Cyfleusterau sydd wedi'u cynnwys mewn Ysgol</u>**

Byddai unrhyw newidiadau i adeiladau ysgol presennol y byddai eu hangen pe bai'r cynnig a amlinellir uchod yn cael ei weithredu'n unol â'r Adran Addysg: Canllawiau ardaloedd ar gyfer Bwletin Adeiladu 99 ysgolion prif ffrwd sy'n nodi bod angen i'r cyfleusterau canlynol fod wedi'u cynnwys mewn ysgol:

Gofod Addysgu: mewnol ac allanol
Neuaddau/ardal fwyta
Ardaloedd adnoddau dysgu
Storfeydd
Toiledau a gofal personol
Cyfleusterau cegin
Cylchrediad awyr, cyfarpar a waliau mewnol

Beth sydd gennym ar hyn o bryd o fewn ffederasiwn Ceiriog:

Enw'r Ysgol	Dangosydd Cymraeg/ Dynodiad iaith	Math o ysgol: Cymuned / VC / VA / Sylfaen	Ystod Oedran	Capasiti cyfredol	Graddfa Cyflwr
Cynddelw	Deuol	Cymunedol	3-11	126	B
Pontfadog	Cyfrwng Saesneg	Cymunedol	3-11	56	C
Llanarmon	Cyfrwng Cymraeg	Cymunedol	3-11	49	C

Mae Ysgol Gynradd Pontfadog ac Ysgol Gynradd Llanarmon o'r un raddfa cyflwr gydag Ysgol Gynradd Cynddelw mewn cyflwr gwell.

8. Cyflenwad a Galw am Leoedd Ysgol

Galw am Addysg yn Wrecsam 2006- 2016

Blwyddyn	Carfan	Cohort Cymraeg	% Cymraeg
2006	10150	861	8.5%
2007	10057	844	8.4%
2008	10007	826	8.3%
2009	9957	879	8.8%
2010	10020	923	9.2%
2011	10111	988	9.8%
2012	10222	1070	10.5%
2013	10415	1119	10.7%
2014	10688	1186	11.1%
2015	10944	1264	11.5%
2016	11179	1323	11.8%
2017	11305	1353	12.0%
2018	11307	1411	12.5%
2019	11376	1448	12.7%
2020	11310	1492	13.2%

Dengys y tabl hwn y galw cynyddol am leoedd Cymraeg
ar draws Sir Wrecsam.
*Nid yw niferoedd disgyblion o CYBLD mis Ionawr yn cynnwys

Galw am Addysg Gymraeg yn Ffederasiwn Dyffryn Ceiriog

Blwyddyn	Cohort Dyffryn Ceiriog	Cohort Cymraeg Dyffryn Ceiriog	% Cymraeg
2007	174	67	38.5%
2008	157	68	43.3%
2009	147	61	41.5%
2010	141	71	50.4%
2011	143	71	49.7%
2012	148	82	55.4%
2013	140	69	49.3%
2014	144	77	53.5%
2015	145	73	50.3%
2016	150	72	48.0%
2017	140	82	58.6%

Dengys y tabl hwn y galw cynyddol am Addysg Gymraeg.
yn y Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Ceiriog yn fwy na'r % o fewn Cohort ehangach yn Wrecsam.

niferoedd disgyblion meithrin neu ddosbarth arbennig.

** Nid yw niferoedd Cymraeg yn cynnwys Llanarmon na Chynddelw
**** Rhagamcanion 2018- 2020

Isod ceir tablau sydd yn enghraifft bellach o nifer isel cyson o fewn y ffrwd cyfrwng Saesneg a thwf yn y galw am gyfrwng Cymraeg rhwng 2012 a 2017.

Nifer ar y Gofrestr		Gwir NOR ar 12 Ionawr, 2017	Gwir NOR ar 12 Ionawr, 2016	Gwir NOR ar 12 Ionawr, 2015	Gwir NOR ar 12 Ionawr, 2014	Gwir NOR ar 12 Ionawr, 2013	Gwir NOR ar 12 Ionawr, 2012
Cynddelw	**Cyfrwng Cymraeg**	62	54	57	55	50	57
	Cyfrwng Saesneg	36	41	46	46	48	45
Pontfadog	**Cyfrwng Saesneg**	18	22	21	19	19	19
Llanarmon	**Cyfrwng Cymraeg**	24	25	21	24	23	27

Dengys y tablau isod y dadansoddiad pellach o niferoedd disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn o fewn ysgolion Ffederasiwn rhwng 2012 a 2017.

Nifer ar y Gofrestr (NOR) – Dadansoddiad yn ôl grŵp blwyddyn

		Gwir NOR ar Ionawr 2017							
		Meithrin	**Derbyn**	**Blwyddyn 1**	**Blwyddyn 2**	**Blwyddyn 3**	**Blwyddyn 4**	**Blwyddyn 5**	**Blwyddyn 6**
Ysgol Cynddelw	**Cyfrwng Cymraeg**	9	8	10	9	7	8	6	5
	Cyfrwng Saesneg	3	0	0	8	2	10	11	2
Llanarmon	**Cyfrwng Cymraeg**	4	2	4	3	2	4	4	1
Pontfadog	**Cyfrwng Saesneg**	2	2	4	1	1	3	2	3

		Gwir NOR ar Ionawr 2016							
		Meithrin	**Derbyn**	**Blwyddyn 1**	**Blwyddyn 2**	**Blwyddyn 3**	**Blwyddyn 4**	**Blwyddyn 5**	**Blwyddyn 6**
Ysgol Cynddelw	**Cyfrwng Cymraeg**	1	9	11	7	9	7	6	4
	Cyfrwng Saesneg	0	0	9	5	11	10	1	5
Llanarmon	**Cyfrwng Cymraeg**	2	3	3	2	4	4	1	3
Pontfadog	**Cyfrwng Saesneg**	2	5	2	1	3	2	4	2

		Gwir NOR ar Ionawr 2015							
		Meithrin	Derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
Ysgol Cynddelw	Cyfrwng Cymraeg	9	10	7	9	7	6	5	4
	Cyfrwng Saesneg	0	9	5	11	9	1	5	6
Llanarmon	Cyfrwng Cymraeg	4	2	2	4	4	1	3	1
Pontfadog	Cyfrwng Saesneg	5	3	1	2	3	3	3	0

		Gwir NOR ar Ionawr 2014							
		Meithrin	Derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
Ysgol Cynddelw	Cyfrwng Cymraeg	11	7	9	7	6	5	4	6
	Cyfrwng Saesneg	6	5	11	6	1	5	5	7
Llanarmon	Cyfrwng Cymraeg	3	2	5	4	1	3	1	4
Pontfadog	Cyfrwng Saesneg	2	2	1	4	3	3	1	2

		Gwir NOR ar Ionawr 2013							
		Meithrin	**Derbyn**	**Blwyddyn 1**	**Blwyddyn 2**	**Blwyddyn 3**	**Blwyddyn 4**	**Blwyddyn 5**	**Blwyddyn 6**
Ysgol Cynddelw	**Cyfrwng Cymraeg**	7	10	7	6	4	4	6	6
	Cyfrwng Saesneg	6	9	8	2	4	6	8	5
Llanarmon	**Cyfrwng Cymraeg**	1	4	4	1	3	3	4	3
Pontfadog	**Cyfrwng Saesneg**	2	1	4	3	3	1	2	2

		Gwir NOR ar Ionawr 2012							
		Meithrin	**Derbynfa**	**Blwyddyn 1**	**Blwyddyn 2**	**Blwyddyn 3**	**Blwyddyn 4**	**Blwyddyn 5**	**Blwyddyn 6**
Ysgol Cynddelw	**Cyfrwng Cymraeg**	13	6	5	4	4	7	6	8
	Cyfrwng Saesneg	8	7	1	4	7	4	5	8
Llanarmon	**Cyfrwng Cymraeg**	4	5	2	4	2	5	2	3
Pontfadog	**Cyfrwng Saesneg**	1	4	3	3	1	2	2	2

Cyfrifo galw lleol am leoedd mewn ysgolion

Er mwyn cyfrifo'r galw tebygol am leoedd mewn ysgolion, roedd angen defnyddio unedau daearyddol o ddata sydd â thueddiadau hanesyddol sy'n benodol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Wrth ystyried y galw tebygol, mae nifer o ffactorau wedi'u defnyddio fel gwybodaeth i lunio amcangyfrifon a rhagolygon.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Poblogaethau diweddar a hanesyddol y gwŷr iddynt fyw ym mhob ardal gan ddefnyddio data Meddyg Teulu.
- Niferoedd diweddar a hanesyddol ar y gofrestr a gymerwyd o CYBLD (Cyfrifiad Blynyddol Lefel Disgyblion) ar gyfer Ysgolion Wrecsam.
- Niferoedd y plant sy'n byw yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i fod ar y gofrestr sy'n mynychu ysgolion y tu allan i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae cymharu'r data poblogaeth a ddarparwyd gan y GIG gyda nifer y disgyblion a dderbynnir i Ysgolion Wrecsam o'r garfan hon yn caniatáu i'r Cyngor gynllunio ar gyfer y galw am lefydd mewn ysgolion yn ogystal â chyfran y disgyblion a fydd yn dewis lle mewn ysgol y tu allan i Wrecsam.

Fel y dywedir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ymdrechu i alluogi pob plentyn ac unigolyn ifanc i fod yn siaradwyr dwyieithog hyderus drwy ei ddarpariaeth addysg, a gallu byw, gweithio a chymdeithasu yn gyfforddus drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae poblogaeth sylfaenol gynyddol yn Wrecsam, cyfran sy'n tyfu y bydd angen darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant. Mae nifer cyffredinol y lleoedd a gynigir ar gyfer dosbarthiadau derbyn a meithrin wedi tyfu o 1683 i 1847 rhwng 2008 a mis Medi 2015. Er bod hyn yn cynrychioli cynnydd o 9.75%, mae cynnydd cyfatebol y ddarpariaeth gyda chlwstwr Morgan Llwyd (darpariaeth cyfrwng Cymraeg) wedi bod yn 51%, gan gynyddu o 162 o leoedd i 245.

Mae cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn bresennol ac yn y dyfodol yn ystyried monitro'r galw, yn ogystal â galluogi'r cynnydd mewn niferoedd sydd yn cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.

9.Trefniadau Ffederasiwn Cyfredol gan yr Ysgolion

Mae **Ysgol Cynddelw** yn ysgol gymunedol ym mhentref Glyn Ceiriog ger Llangollen**.** Ym mis Medi 2012, ffedereiddiodd Ysgol Cynddelw gyda dwy ysgol leol arall yn Nyffryn Ceiriog. Mae pum dosbarth oed cymysg sy'n cynnwys meithrin rhan amser. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae dau ddosbarth lle mae disgyblion yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig ac un dosbarth lle mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu'n Saesneg yn bennaf. Yng nghyfnod allweddol 2, mae dau ddosbarth oedran cymysg. Mewn un dosbarth, mae'r addysgu yn Saesneg ac yn y llall, yn y Gymraeg yn bennaf.

Mae 98 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 3 ac 11 oed. Mae'r ysgol yn nodi bod gan tua 16% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol

Mae tua 11% o'r disgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae hyn hefyd yn llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol

Mae tua 15% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle'r Gymraeg yw'r brif iaith.

Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig neu'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae **Ysgol Gynradd Pontfadog** yn ysgol gynradd fach yn Nyffryn Ceiriog, yn awdurdod lleol Wrecsam sydd yn gwasanaethu'r gymuned wledig lleol. Ers mis Chwefror 2012, mae'r ysgol, ynghyd â dwy ysgol arall, wedi bod yn rhan o Ffederasiwn Dyffryn Ceiriog, dan arweinyddiaeth un pennaeth.

Mae oddeutu 18 disgybl rhwng 3 a 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys pum plentyn meithrin rhan amser. Maent yn cael eu dysgu mewn dau ddosbarth oedran cymysg. Mae'r ysgol yn nodi bod ychydig o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Nid yw'r un yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Ni yw'r un disgybl yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf gartref.

Lleolir **Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog** ym mhentref Llanarmon Dyffryn Ceiriog, sydd ar ben y dyffryn a dan ofal awdurdod lleol Wrecsam. Ers mis Chwefror 2012, mae'r ysgol, ynghyd â dwy ysgol arall, wedi bod yn rhan o Ffederasiwn Dyffryn Ceiriog, dan arweinyddiaeth un pennaeth.

Mae oddeutu 24 disgybl rhwng 3 a 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys 4 plentyn meithrin rhan amser. Maent yn cael eu trefnu mewn dau ddosbarth oedran cymysg.

Mae tua thraean o ddisgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel yr iaith gyntaf.

Ychydig iawn o ddisgyblion sydd yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Mae ychydig o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac nid oes yr un sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig statudol.

Ychydig o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim.

9.<u>Opsiynau i'w ymgynghori</u>

Opsiwn 1

Y Sefyllfa Bresennol - y tair ysgol yn aros fel y maent ar hyn o bryd.

	Gofynion	**Manteision**	**Anfanteision**
Aros yr un fath	Peidio gwneud dim – ysgolion yn aros fel y maent.	Dim newid – ysgolion yn parhau fel y maent.	Cost ariannol cynnal dosbarthiadau bach iawn Defnydd aneffeithlon o adnoddau addysg Dim lleoedd ysgolion Cyfrwng Cymraeg ychwanegol wedi'u creu

			yn Ysgol Cynddelw. Profiad disgybl a gweithgareddau cymdeithasol yn gyfyngedig yn y dosbarthiadau cyfrwng Saesneg. Anghynaliadwy yn yr hirdymor.

Opsiwn 2

Newid dynodiad iaith Ysgol Cynddelw i gyfrwng Cymraeg gydag unrhyw ddisgyblion newydd Cyfrwng Saesneg yn cael eu dyrannu i safle Ysgol Pontfadog.

	Gofynion	Manteision	Anfanteision
Newid dynodiad iaith yn Ysgol Cynddelw i gyfrwng Cymraeg.	Newid categori Cynddelw o ddwy ffrwd i gyfrwng Cymraeg. Disgyblion cyfrwng Saesneg o 2019 i fynychu Ysgol Pontfadog yn amodol i ddewis rhieni.	Profiad gwell i ddisgyblion. Lleoedd ysgolion Cyfrwng Cymraeg ychwanegol wedi'u creu yn Ysgol Cynddelw. Dim angen newidiadau ffisegol i'r ysgol Bydd disgyblion sydd eisiau cyfrwng Saesneg yn cael mynediad i un o'r ysgolion eraill o fewn yr un ffederasiwn neu ysgol arall yn amodol i ddewis rhieni.	Bydd disgyblion sydd angen mynediad cyfrwng Saesneg yn mynd i ysgol arall a all fod ymhellach oddi wrth eu cyfeiriad cartref. Efallai y bydd yn rhaid i athrawon cyfrwng Saesneg gael eu hadleoli i safleoedd eraill yn y ffederasiwn. Gall y diffyg niferoedd disgyblion yn mynd i'r ffrwd cyfrwng Saesneg yn gallu arwain at ddileu swyddi neu ad-leoli.

		Defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau addysg. Disgyblion yn cael mynediad at ysgol yn eu dewis iaith mewn niferoedd digonol i sefydlu grwpiau cyfoedion. Cyfleodd digonol i ryngweithiad cymdeithasol mewn grwpiau cyfoedion. Effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cynyddol i ddarparu Addysg orau i ddisgyblion o fewn y Ffederasiwn. Ffederasiwn yn fwy cynaliadwy yn yr hirdymor.	

Opsiwn 3

Cadw statws dwy ffrwd yn Ysgol Cynddelw, cau Ysgol Pontfadog a symud disgyblion i safle ffrwd ddeuol Ysgol Cynddelw.

	Gofynion	Manteision	Anfanteision
Cau Ysgol Pontfadog	Mae Ysgol Cynddelw yn parhau yn ysgol Dwy Ffrwd Ail-leoli disgyblion cyfrwng Saesneg i safle dwy ffrwd Ysgol Cynddelw. Ailddefnyddio neu werthu safle Ysgol Pontfadog.	Effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cynyddol i ddarparu Addysg orau i ddisgyblion o fewn y Ffederasiwn. Defnydd effeithlon o adnoddau addysg. I sicrhau mwy o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd i ddarparu'r gwerth gorau am arian. Ffederasiwn yn fwy cynaliadwy yn yr hirdymor.	Bydd disgyblion yn mynd i ysgol arall a all fod ymhellach oddi wrth eu cyfeiriad cartref. Anawsterau cychwynnol posibl i ddisgyblion integreiddio i ysgol fwy. Gall athrawon a staff cefnogi fod yn amodol i ail-leoli i safleoedd eraill o fewn y ffederasiwn neu mewn sefyllfa adleoli. Dim lleoedd ysgolion Cyfrwng Cymraeg ychwanegol wedi'u creu yn Ysgol Cynddelw. Dim lleoedd ysgolion Cyfrwng Cymraeg ychwanegol wedi'u creu.

10. Trefniadau Dros Dro

	Cynddelw	Llanarmon	Pontfadog
Y Sefyllfa Bresennol – y dair ysgol yn aros fel y maent ar hyn o bryd.	Dim newid	Dim newid	Dim newid
Newid dynodiad iaith Ysgol Cynddelw i gyfrwng Cymraeg gydag unrhyw ddisgyblion newydd Cyfrwng Saesneg yn cael eu dyrannu i safle Ysgol Pontfadog.	Dim newid	Dim newid	Cludiant
Cadw statws ffrwd ddeuol yn Ysgol Cynddelw, cau Ysgol Pontfadog a symud disgyblion i safle ffrwd ddeuol Ysgol Cynddelw.	Ail-drefnu lleoedd ystafell ddosbarth, estyniad o bosibl.	Dim newid	Cludiant Safle diangen

11. Effaith y cynigion ar ysgolion cyfagos

Effaith a ddisgrifir uchod a drwy'r ddogfen hon, gan bod yr holl ysgolion yn yr ardal o fewn y Ffederasiwn dan sylw.

12. Beth fyddai'r effaith ar ddarpariaeth Feithrin?

Pa ddarpariaeth sydd yna ar hyn o bryd?

	Cynddelw	Llanarmon	Pontfadog
Darpariaeth Cyfredol	Lleolir Cylch Meithrin Glyn Ceiriog yn Ysgol Gynradd Cynddelw. Mae'r Cylch Ti a Fi (grŵp plant bach Cyfrwng Cymraeg) yng Nglyn Ceiriog yn bwydo'r Cylch Meithrin sydd yn ei dro'n bwydo'r ysgol. Mae'r cylch Ti a Fi yn cael ei redeg gan sefydliad o'r enw Mudiad Meithrin.	Lleoliad Addysg Cynnar.	Lleoliad Addysg Cynnar.

Effaith Posibl ar Ddarpariaeth Meithrin:

	Cynddelw	Llanarmon	Pontfadog
Y Sefyllfa Bresennol - y tair ysgol yn aros fel y maent ar hyn o bryd.	Ni fydd dosbarth meithrin yn cael eu heffeithio.	Ni fydd dosbarth meithrin yn cael eu heffeithio.	Ni fydd dosbarth meithrin yn cael eu heffeithio.
Newid dynodiad iaith Ysgol Cynddelw i gyfrwng Cymraeg gydag unrhyw ddisgyblion newydd Cyfrwng Saesneg yn cael eu dyrannu i safle Ysgol Pontfadog.	Ni fydd dosbarth meithrin yn cael eu heffeithio.	Ni fydd dosbarth meithrin yn cael eu heffeithio.	Disgyblion meithrin cyfrwng Saesneg ychwanegol.
Cadw statws ffrwd ddeuol yn Ysgol Cynddelw, cau Ysgol Pontfadog a symud disgyblion i safle ffrwd ddeuol Ysgol Cynddelw.	Disgyblion meithrin cyfrwng Saesneg ychwanegol.	Ni fydd dosbarth meithrin yn cael eu heffeithio.	Cau lleoliad Addysg Gynnar (yn Ysgol Cynddelw)

13. Ansawdd a Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod arweinyddiaeth a llywodraethu'n gryf. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion a chefnogi gwelliant yr ysgolion.

- **ESTYN**

Estyn yw swyddfa Prif Arolygwr Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n gorff y goron, a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond yn derbyn ei chyllid gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a darparwyr hyfforddiant yng Nghymru.

Mae ysgolion yn cael eu harolygu fel rhan o raglen arolygu ysgolion genedlaethol. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Mae Adroddiadau Arolygu Estyn yn rhoi graddau yn erbyn cwestiynau allweddol ac yn rhoi argymhellion ar gyfer gwella i ysgolion.

- **GwE**

GwE yw Gwasanaeth Effeithiolrwydd Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â'r chwe Awdurdod Lleol (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint) i wella safonau addysg a gwella canlyniadau disgyblion trwy sicrhau arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel a dysgu ac addysgu o ansawdd ym mhob dosbarth.

Nod GwE yw darparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol, cwbl ddwyieithog i Ogledd Cymru er mwyn codi safonau a gwneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc. Y nod yw:

- cynnal systemau newydd cadarn ar gyfer perfformiad er mwyn gwella effeithlonrwydd;
- gwella safonau - gwella llythrennedd a rhifedd;
- hyrwyddo lles, codi dyheadau a gwella gwytnwch disgyblion fel dysgwyr;
- gwella canlyniadau a lleihau amrywiad rhwng ac o fewn ysgolion;

Adroddiad ar Ysgol Cynddelw Chwefror 2016	https://www.estyn.gov.wales/provider/6652139
Perfformiad Cyfredol	Digonol
Rhagolygon ar gyfer gwella	Digonol

Adroddiad ar Ysgol Pontfadog Mawrth 2015	https://www.estyn.gov.wales/provider/6652143
erfformiad cyfredol	Digonol
Rhagolygon ar gyfer gwella	Digonol

Adroddiad Ysgol Llanarmon Medi 2014	https://www.estyn.gov.wales/provider/6652140
Perfformiad Cyfredol	Da
Rhagolygon ar gyfer gwella	Da

Gwerthuso effaith y cynnig ar ansawdd a safon yr addysg

Barn y Cyngor, os bydd y cynnig presennol yn cael ei weithredu, yw y bydd yn cynnal a pharhau i wella safon ac ansawdd yr addysg gyfredol o fewn yr ardal. Mae'r adolygiad wedi mynd ati i fynd i'r afael heriau o fewn yr ardal sydd â'r potensial o effeithio ar gynaladwyedd darpariaeth o ansawdd uchel yn y dyfodol. Mae'r cynnig hwn yn ceisio cynnal y safon gyfredol gyda'r bwriad o gryfhau a gwella'r ddarpariaeth addysgol yn yr ardal.

- Canlyniadau (safonau a lles)
- Darpariaeth (profiadau dysgu, addysgu, gofal, cymorth, arweiniad ac amgylchedd dysgu)
- Arwain a Rheoli (arweinyddiaeth, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)

14. <u>Beth fyddai'r effaith ar Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY)?</u>
<u>Darpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol</u>

	Cynddelw	**Llanarmon**	**Pontfadog**
Darpariaeth Anghenion Addysg Arbennig Cyfredol	Dim darpariaeth adnoddau	Dim darpariaeth adnoddau	Dim darpariaeth adnoddau

Ni fydd unrhyw effaith ar unrhyw ddarpariaeth adnoddau i ddisgyblion Anghenion Addysgol Arbennig dan unrhyw opsiwn.

Ni fydd unrhyw newid ar gyfer unrhyw ddisgyblion prif ffrwd sydd angen cymorth ychwanegol.

Bydd cymorth Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn parhau heb ei effeithio gan unrhyw un o'r opsiynau arfaethedig.

15. Risgiau sy'n gysylltiedig â'r Cynigion

Mae'r risgiau i'r rhanddeiliaid yn fach iawn. Mae risgiau yn cael eu lliniaru'n fanwl fel a ganlyn:

- **Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EIA).**
- **Asesiad o Effaith ar y Gymraeg (WIA)**
- **Asesiad o Effaith ar Gludiant (TIA)**
- **Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned**

Bydd yr holl risgiau posibl yn cael eu monitro fel rhan o strategaeth rheoli risg Ysgolion Cyngor Sir Wrecsam.

Drwy fonitro a sicrhau bod ymagwedd gadarn at y risgiau a'r anfanteision uchod, gellir lleihau'r effaith ar ddisgyblion / rhieni / gofalwyr / athrawon a staff cymorth.

16. Trefniadau Derbyn

Bydd trefniadau derbyn yn parhau i fod yn unol â Gweithdrefnau Derbyn y Cyngor.

Gallwch weld y Polisi Derbyn yn:

https://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/education/admissions/parents_guide.pdf

17. Cyllid: Costau a Chyllido

Dyrennir cyllid i Ysgolion Wrecsam yn flynyddol drwy fformiwla dyrannu adnoddau cymeradwy.
Mae'r mwyafrif o'r fformiwla yn berthnasol i'r nifer o ddisgyblion wedi'u cofrestru i bob ysgol.

Yn ychwanegol i'r gyfran "arweinir gan ddisgyblion" o'r fformiwla, mae'r fformiwla hefyd yn cynnwys dyraniadau ychwanegol sydd yn berthnasol i'r dyraniadau sylfaen, ffactorau adeiladu megis arwynebedd llawr a hefyd ffactorau diogelu ysgolion bach.

Mae Costau Uned (pob disgybl) i bob safle (Cyllideb wedi'i rannu gan niferoedd disgyblion) yw:

Costau i bob disgybl:

Ysgol Gynradd Gymunedol Cynddelw	£4,470
Ysgol Gynradd Gymunedol Llanarmon Dyffryn Ceiriog	£7,737
Ysgol Gynradd Gymunedol Pontfadog	£9,983

Y cyfartaledd cost uned (pob disgybl) ar gyfer Ysgol Gynradd Wrecsam yn 2017-18 yw £3,569

Y cyllidebau dirprwyedig refeniw ar gyfer y dair safle yn y Ffederasiwn yn 2017-18 yw:

Ysgol Gynradd Gymunedol Cynddelw	£413,453
Ysgol Gynradd Gymunedol Llanarmon Dyffryn Ceiriog	£170,221
Ysgol Gynradd Gymunedol Pontfadog	£169,716

Cyllideb Ddirprwyedig yr Ysgol 2017-18	**£753,390**

<u>Diffyg cyfredol a ragwelir ar gyfer 2017- 2018 (trefniadau cyfredol)</u>

Cynddelw minws £23,242

Llanarmon - cronfa wrth gefn £1,465

Pontfadog - cronfa wrth gefn £3,869

Diffyg cyfredol y Ffederasiwn minws £17,908

Opsiwn 1. Y Sefyllfa Bresennol - y tair ysgol yn aros fel y maent ar hyn o bryd.

Diffyg cyllideb yn parhau

Opsiwn 2. Newid Dynodiad iaith Ysgol Cynddelw i gyfrwng Cymraeg

Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at leihad yn y nifer o athrawon a chynorthwywyr addysgu sydd eu hangen.

Mewn blwyddyn ariannol llawn, byddai'r arbediad yn dod i £98,700.

Opsiwn 3. Cadw statws ffrwd ddeuol yn Ysgol Cynddelw, cau Ysgol Pontfadog a symud disgyblion i safle ffrwd ddeuol Ysgol Cynddelw.

O'r gyllideb ddirprwyedig gyfredol i Ysgol Pontfadog, mae'r swm y gyllideb sydd wedi'i ddyrannu heb gyfeirnod i'r nifer o ddisgyblion wedi'u cofrestru yw £98,550.

Petai safle Ysgol Gynradd Pontfadog yn cau, byddai'r arbediad refeniw yn y gyllideb ddirprwyedig yn £98,550.

Unrhyw dderbyniadau cyfalaf o waredu Pontfadog yn cael ei ail-fuddsoddi i'r portffolio Addysg.

Mae'r gyfran o'r gyllideb sydd yn berthnasol i ddisgyblion yn ffurfio rhan o'r gyllideb ar gyfer yr ysgol (ysgolion) y byddai disgyblion Pontfadog yn trosglwyddo iddo. Mae angen cyllideb refeniw cynyddol ar gyfer disgyblion ychwanegol, mae disgyblion eisoes yn cael eu haddysgu yn rhywle arall felly nid yw'n gynnydd ond yn hytrach yn ail-ddosbarthu cyllid.

Effaith posibl i gostau cludiant (ddim yn hysbys ar hyn o bryd, yn amodol i gymhwyster unigol a dewis rhieni). Effaith bosibl mewn costau cludiant os yw disgyblion cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd yn cael eu hadleoli i'r safleoedd amgen, os ydynt yn aros yn Cynddelw am weddill eu haddysg gynradd, ni fydd hyn yn ffactor.

Unrhyw dderbyniadau cyfalaf o waredu Pontfadog yn cael ei ail-fuddsoddi i'r portffolio Addysg.

18. <u>Effaith ar staff</u>

	Cynddelw	Llanarmon	Pontfadog
Y Sefyllfa Bresennol - y tair ysgol yn aros fel y maent ar hyn o bryd.	Dim	Dim	Dim
Newid dynodiad iaith Ysgol Cynddelw i gyfrwng Cymraeg gydag unrhyw ddisgyblion newydd Cyfrwng Saesneg yn cael eu dyrannu i safle Ysgol Pontfadog.	Yn dibynnu ar nifer y disgyblion, efallai y bydd rhai staff yn cael eu hadleoli neu'n addysgu ar safle arall	Dim	Dim
Cadw statws ffrwd ddeuol yn Ysgol Cynddelw, cau Ysgol Pontfadog a symud disgyblion i safle ffrwd ddeuol Ysgol Cynddelw.	Dim	Dim	Efallai y bydd staff yn cael eu hadleoli neu'n addysgu ar safle arall

19. <u>Trefniadau Cludiant</u>

	Cynddelw	Llanarmon	Pontfadog
Y Sefyllfa Bresennol - y tair ysgol yn aros fel y maent ar hyn o bryd.	Dim	Dim	Dim
Newid dynodiad iaith Ysgol Cynddelw i gyfrwng Cymraeg gydag unrhyw ddisgyblion newydd Cyfrwng Saesneg yn cael eu dyrannu i safle Ysgol Pontfadog.	Cludiant disgyblion Saesneg i Pontfadog (yn dibynnu ar y cymhwyster dan y Polisi Cludiant)	Dim	Dim
Cadw statws ffrwd ddeuol yn Ysgol Cynddelw, cau Ysgol Pontfadog a symud	Dim	Dim	Cludiant i ddisgyblion i ysgol o ddewis (yn dibynnu ar y

disgyblion i safle ffrwd ddeuol Ysgol Cynddelw.			cymhwyster dan y Polisi Cludiant)

Gellir gweld polisi trafnidiaeth CBSW yn:

http://www.wrexham.gov.uk/english/education/Transport_Policy.htm

Nid oes llwybrau cerdded diogel yn yr ardaloedd o amgylch y 3 ysgol.

20. Asesiad o Effaith ar y Gymraeg

Cyflawnwyd asesiad o effaith ar y Gymraeg ym mis Tachwedd 2017.

21. Effaith y Cynnig ar Ddarpariaeth yr Eglwys yng Nghymru

Nid yw'r cynnig yn cyfoethogi nac yn cael effaith negyddol ar y Ddarpariaeth yr Eglwys yng Nghymru.

22. Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

Cyflawnwyd asesiad o effaith ar Gydraddoldeb ym mis Tachwedd 2017.

23. Cynaliadwyedd

(Opsiwn 1. Y Sefyllfa Bresennol – y dair ysgol yn aros fel y maent ar hyn o bryd)

Nid yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy yn y tymor canolig i'r tymor hir oherwydd: -

Nid yw ystâd Glynceiriog yn bodloni'r galw lleol am leoedd cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag nid yw Cynddelw yn cael digon o geisiadau ar gyfer disgyblion sy'n dymuno cael mynediad i addysg cyfrwng Saesneg i gynnal ei statws dwy ffrwd presennol.

(Opsiwn 2 - Newid dynodiad iaith Ysgol Cynddelw i gyfrwng Cymraeg gydag unrhyw ddisgyblion newydd Cyfrwng Saesneg yn cael eu dyrannu i safle Ysgol Pontfadog)

Mae'r cynnig i greu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Nghynddelw, ac felly yn ailgyfeirio'r disgyblion hynny sydd eisiau addysg cyfrwng Saesneg i Pontfadog o fewn y ffederasiwn, a fydd yn creu defnydd mwy effeithlon o ystâd yr ysgol ac adnoddau addysg.

(Opsiwn 3. Cadw statws ffrwd ddeuol yn Ysgol Cynddelw, cau Ysgol Pontfadog a symud disgyblion i safle ffrwd ddeuol Ysgol Cynddelw.)

Bydd y cynnig i greu darpariaeth ddwy ffrwd yn ysgol Cynddelw, ac felly yn cau ysgol Pontfadog o fewn y ffederasiwn yn creu defnydd mwy effeithlon o'r ystâd ysgolion a'r adnoddau addysgol.

24. Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Cyflawnwyd asesiad o effaith ar Gydraddoldeb ym mis Tachwedd 2017.

25. Y Camau Nesaf - Sut i leisio'ch barn

Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch chi gyfleu eich barn i ni. Mae ffurflen ymateb ynghlwm wrth y ddogfen hon. Gallwch lenwi'r ffurflen a'i dychwelyd atom yn y cyfeiriad a nodwyd.

Gallwch gysylltu â ni drwy e-bost. Y cyfeiriad e-bost ar gyfer yr ohebiaeth yw:

Ceiriogvalleyconsultation@wrexham.gov.uk

Mae'r ffurflen ymateb ar gael yn:

www.wrexham.gov.uk/Ymgynghoriaddyffrynceiriog

Gallwch hefyd alw i'n gweld yn y sesiynau galw heibio a gynhelir yn Ysgol Gynradd Cynddelw, Ysgol Gynradd Pontfadog ac Ysgol Gynradd Llanarmon Dyffryn Ceiriog Yn y sesiynau hyn byddwch yn gallu siarad â Swyddog o'r Cyngor a fydd ar gael i ateb eich cwestiynau. Bydd dyddiadau'r sesiynau hyn yn cael eu dosbarthu ar ddyddiad diweddarach.

Ni fydd y sylwadau'n cael eu trin fel gwrthwynebiadau ar y cam hwn.

26. Dyddiadau allweddol

Ymarferiad Ymgynghori - 9 Ionawr, 2018 tan 21 Chwefror, 2018
Adroddiad Ymgynghori i'r Bwrdd Gweithredol – 10 Ebrill, 2018
Cyhoeddi Hysbysiad Statudol a Chyfnod ar gyfer Gwrthwynebu - 16 Ebrill, 2018 i 16 Mai, 2018
Adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol a Phenderfyniad- 10 Gorffennaf, 2018

27. Beth fydd yn digwydd nesaf

Adroddiad Ymgynghori

O fewn 13 wythnos ar ôl diwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer ymatebion (ac ym mhob achos cyn cyhoeddi'r cynigion), bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori a fydd yn:

- crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion;
- ymateb i'r rhain drwy egluro, diwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gyda rhesymau ategol.
- cyflwyno safbwynt Estyn (fel y darparwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad) o fanteision cyffredinol y cynnig.

Gall yr adroddiad ymgynghori hefyd wneud argymhellion - er enghraifft, i bwyllgor gweithredol yr awdurdod - ynghylch sut i symud ymlaen, h.y. cyhoeddi'r cynigion fel yr ymgynghorwyd arnynt gydag unrhyw addasiadau priodol, i roi'r gorau i'r cynigion a chadw'r sefyllfa bresennol neu ail-lunio'r cynigion yn sylweddol ac ail-ymgynghori.

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw safbwyntiau a fynegir gan blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan y cynigion yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad ymgynghori a'i fod yn cael ei wneud yn hygyrch iddynt.

Bydd yr adroddiad ar yr ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi yn electronig, ar wefan yr ysgol a'r Cyngor. Yn ogystal, bydd copïau caled ar gael ar gais.

Y Broses Statudol

Mae'r broses ymgynghori yn amodol ar ofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, dogfen rhif 006/2013.

Yn dilyn diwedd yr ymgynghoriad hwn, **21 Chwefror 2018**, bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad a fydd ar gael ar wefan y Cyngor.

Yna, bydd swyddogion y Cyngor yn cyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol ar **10 Ebrill 2018**.

Os bydd yr argymhelliad yn cael ei dderbyn gan y Bwrdd Gweithredol, yna bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod yn dechrau. Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar y farn a fynegwyd i'r Cyngor yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a bydd ar gael ar wefan y Cyngor.

28. Cyfnod ymgynghori

Bydd y cyfnod ymgynghori hwn yn dechrau ar **9 Ionawr 2018**. Gweler tudalen 34-36 am fanylion pellach sut i ymateb a lleisio eich barn.

O fewn 13 wythnos i **21 Chwefror 2018**, caiff adroddiad ymgynghori ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn rhoi ymateb y Cyngor i'r materion hyn.

Bydd Bwrdd Gweithredol y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu p'un a ddylid mynd ymlaen â'r cynigion ai peidio.

Ni fydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig a gellir ond cofrestru'r gwrthwynebiadau yn dilyn cyhoeddiad o'r hysbysiad.

29. <u>Cyhoeddi Hysbysiadau Statudol</u>

Bydd hyn yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad.

Byddai'r hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'i arddangos yn neu wrth y brif fynedfa i'r safleoedd yn amodol ar yr hysbysiad. Byddai copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgolion a enwir yn yr hysbysiad. Bydd yr hysbysiad yn nodi dyddiadau'r cynigion ac yn gwahodd unrhyw un sydd am wrthwynebu i wneud hynny yn ysgrifenedig o fewn y cyfnod a nodir.

30. <u>Penderfynu ar y cynigion</u>

Bydd canlyniadau'r hysbysiad statudol yn cael eu cymryd cyn cyfarfod Bwrdd Gweithredol y Cyngor ar **10 Gorffennaf 2018.**

31. <u>Hysbysiad o'r Penderfyniad</u>

Yn dilyn penderfyniad y Bwrdd Gweithredol bydd hysbysiad o'r penderfyniad ar gael i'r holl rai a ymgynghorwyd. Bydd yr hysbysiad hwn hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl yn dilyn y penderfyniad.

32. <u>Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad</u>

Mae ffurflen ymateb ar gyfer sylwadau, gan gynnwys cyfle i'r sawl a ymgynghorwyd i gofrestru eu dymuniad i gael eu hysbysu o gyhoeddiad yr adroddiad ymgynghori, ynghlwm wrth y ddogfen ymgynghori.

FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Ymgynghori ar Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Ceiriog

Eich Sylwadau: Opsiwn 1. Y Sefyllfa Bresennol – y dair ysgol yn aros fel y maent ar hyn o bryd

Eich Sylwadau: Opsiwn 2 - Newid dynodiad iaith Ysgol Cynddelw i gyfrwng Cymraeg gydag unrhyw ddisgyblion newydd Cyfrwng Saesneg yn cael eu dyrannu i safle Ysgol Pontfadog

Eich Sylwadau: Opsiwn 3. Cadw statws ffrwd ddeuol yn Ysgol Cynddelw, cau Ysgol Pontfadog a symud disgyblion i safle ffrwd ddeuol Ysgol Cynddelw:

Sylwadau ychwanegol i'w hystyried:

Enw a Chyfeiriad:

Ticiwch y blwch os hoffech gael gwybod pan gyhoeddir yr adroddiad ymgynghori ☐

Sylwch: Mae'r daflen hon ar gyfer dibenion ymgynghori yn unig. Bydd yr holl sylwadau yn cael eu hystyried o fewn y broses ymgynghori, ond ni fydd atebion unigol yn cael eu darparu.

Dychwelwch y ffurflen hon at:
Dafydd Ifans (Ymgynghoriad Dyffryn Ceiriog)
Pennaeth Gwasanaethau Isadeiledd a Chymorth Addysg
Stryt y Lampint, Wrecsam
LL11 1AR

Neu gallwch anfon eich safbwyntiau at **Ceiriogvalleyconsultation@wrexham.gov.uk**

Gellir gweld y ddogfen ymgynghori yn **www.wrexham.gov.uk/Ymgynghoriaddyffrynceiriog**